

EDWARDS, ROGER (1811 - 1886), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, awdur, a golygydd

Enw: Roger Edwards
Dyddiad geni: 1811
Dyddiad marw: 1886
Priod: Eleanor Edwards (née Williams)
Plentyn: Anne Lewis (née Edwards)
Plentyn: Ellis Edwards
Rhiant: Elizabeth Edwards
Rhiant: Roger Edwards
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, awdur, a golygydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Gwilym Thomas Jones

Ganwyd 26 Ionawr 1811 yn y Bala, mab Roger ac Elizabeth Edwards. Dygwyd ef i fyny yn Nolgellau a bu yn ysgol **Lewis William** yn Llanfachreth cyn mynd i ysgol Tŷ-dan-y-domen, Bala. Wedi i'r ymdrech i wneuthur ohono gynorthwyr mewn siop droi yn fethiant, anfonwyd ef i ysgol Evan Rowland yn Lerpwl, ac wedi hynny i seminari y **Parch. John Hughes** yn Wrecsam. O ddechrau 1830 hyd c. 1833 bu ef ei hunan yn cadw ysgol yn Nolgellau. Ym mis Rhagfyr 1830 dechreuodd bregethu; ordeiniwyd ef yn 1842. Aeth i'r Wyddgrug yn 1835 yn ddarlennydd profleuni ac i ymgymryd â gwaith golygyddol cyffredinol yn swyddfa **John** ac **Evan Lloyd**, argraffwyr; arhosodd yn yr Wyddgrug hyd y bu farw, 9 Gorffennaf 1886. Er iddo wasnaethu eglwys Bethesda, yr Wyddgrug, fel gweinidog er 1835, nid etholwyd mohono'n fugail yn ffurfiol hyd 1878. Priododd, 1841, Eleanor Williams, Dolgellau. Bu chwech o blant o'r briodas. Daeth y mab hynaf, **Ellis Edwards**, yn brifathro Coleg y Bala; priododd merch, Annie, â **Syr Henry Lewis**, Bangor.

Yr oedd gyrfa Roger Edwards yn amrywiol; yr oedd yntau yn ŵr amryddawn. Pregethwr ydoedd yn anad dim; serch hynny, er iddo wasnaethu yn wastad mewn sasiynau a chyfarfodydd pregethu eraill, ni chyfrifir mohono ymhlith cewri'r pulpud. Efe, fodd bynnag, oedd gweinydd mwyaf blaenllaw ei enwad; cyfrannodd ef fwy na neb un arall o'i gyfoedion i'r gwaith o ddatblygu a pherffeithio adeilad cymhleth cyfundeb y Methodistiaid Calфинаidd. Am yn agos i 35 mlynedd (1840-70 a 1871-5) bu'n dal swydd bwysig ysgrifennydd sasiwn Gogledd Cymru, a bu'n llywydd y sasiwn honno ddwywaith (1870 a 1886); bu hefyd yn llywydd y gymanfa gyffredinol, 1872.

Fel golygydd **Y Drysorfa** (1847-86; hyd 1853 yn gyd-olygydd â **John Roberts**) gwnaeth un peth nodedig - trwy gyhoeddi, mewn rhifynnau olynol, ei nofelau ei hunan, gan ddechrau gyda *Y Tri Brawd*, 1866; llwyddodd i ladd rhagfarn y Methodistiaid yn erbyn ffug-chwedlau ac felly paratodd y ffordd i **Daniel Owen**; efe a 'ddarganfu' **Daniel Owen** ac a'i darbwylodd i ysgrifennu *Y Dreflan i'r Drysorfa*. Gyda **Dr. Lewis Edwards** bu'n gyd-sylfaenydd a chyd-olygydd *Y Traethodydd*; parhaodd yn gyd-olygydd y cylchgrawn hwnnw hyd 1865 (gyda **Dr. Owen Thomas** am y 10 mlynedd olaf o'r cyfnod). Fel golygydd *Cronicl yr Oes*, 1835-9, y newyddiadur gwleidyddol cyntaf yng Nghymru, y gwnaeth ei wasanaeth mwyaf. Dangosodd feiddgarwch a gwroldeb trwy fentro coleddu a hyrwyddo egwyddorion Radicalaidd mewn modd mor agored a thrwy hynny beri dichter ym mynwes **John Elias** a herfeiddio agwedd draddodiadol Methodistiaeth Galфинаidd. Yr oedd ei waith fel arloeswr gyda'r *Cronicl* yn rhagfynegi gwaith '**Gwilym Hiraethog** ' gyda *Yr Amserau*, a **Thomas Gee** gyda *Y Faner*, ac yn gosod sylfaen i'r Rhyddfrydiaeth a ddaeth mor nodweddiadol o Ogledd Cymru yn rddiweddarach.

At yr hyn a ddywedwyd eisoes dylid ychwanegu i Roger Edwards olygu *Y Pregethwr*, 1841-2; *Y Dyddiadur Methodistiaidd*, 1843-86; a *Y Salmydd Cymreig* (a gyhoeddwyd, i gychwyn, yn 1840). Yr oedd hefyd yn fardd - cyhoeddwyd argraffiad cyntaf *Caneuon Roger Edwards* yn 1855 - ac yn emynydd ('Pa le, pa fodd dechreuaf ... ', ' Am yr ysgol rad Sabbothol... ', etc.).

Awdur

Gwilym Thomas Jones, (1908 - 1956)

Ffynonellau

T. M. Jones, *Cofiant y Parch. Roger Edwards, Yr Wyddgrug yn cynnwys ei waith dyddorol "Y tri brawd a'u teuluoedd"*(Wrecsam 1908)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Roger Edwards**

Gweithiau

Roger Edwards, *Y tri brawd a'u teuluoedd* (Dinbych 1869)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 9614637

Wikidata: Q7358146

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jones, G. T., (1953). EDWARDS, ROGER (1811 - 1886), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, awdur, a golygydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EDWA-ROG-1811>

Bywgraffiadur

Prefatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiolch i
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government